



# Mwynau

## Papur Testun Rhif 6 - Crynodeb

### Cyflwyniad

Mae gan y system gynllunio rôl arwyddocaol i'w chwarae er mwyn sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau. Mae cynnal cyflenwad digonol o fwynau'n hanfodol i'r economi leol a'r economi genedlaethol fel ei gilydd.

Mae gwrthdaro'n bosibl rhwng hyn â defnydd tir nad yw'n ymwneud â mwynau oherwydd dim ond yn y man y maent yn gorwedd y gellir gweithio mwynau. Bydd angen i'r cynllun datblygu gael cydbwysedd rhwng yr angen i warchod a darparu mwynau a'r angen am ddatblygiadau tir nad ydynt yn ymwneud â mwynau.

### Cyd-destun

Mae Sir y Fflint yn gorwedd ar amryw o wahanol fathau o fwynau sy'n bwysig i'r economi megis calchfaen pur iawn, glo, tywod a graean, clai, tywodfaen, crisfaen a mwynau metellog. O ganlyniad, mae gan Sir y Fflint gefndir hanesyddol o gloddio am fwynau ac mae nifer o safleoedd gweithredol yno o hyd, gan gynyws chwareli tywod a graean a chalchfaen. Mewn rhai achosion mae'r hanes hir hwn o gloddio am fwynau wedi gadael problemau o ran ansefydlogrwydd a/neu lygriad a fydd o bosibl yn gorfod cael eu datrys cyn i unrhyw ddatblygiadau nad yw'n ymwneud â mwynau ddigwydd.

Mae polisiâu ynni cenedlaethol yn cydnabod y potensial ar gyfer cynhyrchu olew a nwy ar dir brodorol er mwyn helpu i gynnal diogelwch ynni y DU. Mae nifer o Drwyddedau Archwilio a Datblygu Petrolewm (TADP) wedi cael eu dosbarthu yn Sir y Fflint a'r cyffiniau ar gyfer archwilio olew a nwy ar y tir.

Mae rhan o Sir y Fflint wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae polisiâu cenedlaethol yn ceisio dargyfeirio datblygiadau mwynau oddi wrth yr AHNE a gallai hynny roi mwy o bwysau ar yr ardaloedd y tu allan i'r AHNE. Mae gan Sir y Fflint hefyd nifer o ddynodiadau amgylcheddol eraill a allai gyfyngu ar y manau y gellir cloddio am fwynau. Er hynny cydnabyddir y gall adfer safleoedd mwynau yn briodol wella gwerth bioamrywiaeth yn ystod gweithrediadau ac yn dilyn hynny.

Mae Sir y Fflint mewn lleoliad da i wasanaethu marchnadoedd lleol a marchnadoedd ehangach gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'r seilwaith trafnidiaeth yn gyson ar draws y Sir ac mae'r chwareli presennol yn dibynnu ar ffyrdd.

Ers dechrau'r dirwasgiad yn 2008, mae'r galw am fwynau wedi gostwng, er bo dangosyddion cynnar yn awgrymu fod y tuedd hwn yn dechrau cildroi, yn arbennig o ran agregau, o ganlyniad i brosiectau tai a seilwaith ledled gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r angen am amddiffynfeydd arfordirol ac ailgyflenwi traethau yn debygol o gynyddu'r angen am agregau.

Dim ond nifer fach o gwmnïau sy'n weithredol yng ngogledd-ddwyrain Cymru y mae'r diwydiant wedi cyfuno â nhw.

### Rôl y Cynllun

Un o brif amcanion y cynllun fydd hwyluso cyflenwad cynaliadwy o fwynau. Bydd hyn yn cynnwys diogelu mwynau sy'n bwysig i'r economi rhag datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â

mwynau a fyddai fel arall yn diffwrwytho adnoddau mwynau, gan ostwng y gwrthdaro rhwng datblygiad mwynau a defnyddiau tir sensitif drwy leoli datblygiadau mwynau a datblygiadau sensitif yn briodol, a thrwy ddefnyddio clustogfeydd.

Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn gosod mwynau mewn grwpiau cyffredinol sef mwynau sy'n cynhyrchu ynni, e.e. glo, olew a nwy, a mwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni e.e. agregau (tywod a graean, calchfaen ac ati) ac eraill nad ydynt yn agregau (cerrig dimensiwn, llechi, tywod silica ac ati). Caiff y cyflenwad o agregau yng ngogledd Cymru ei reoli drwy gynhyrchu Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) a gyhoeddir gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Dylid cynnwys rhannau perthnasol y DTRh mewn cynlluniau datblygu.

Mae'r adolygiad cyntaf o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) wedi'i gynnal ar ran Gweithgor Agregau Gogledd Cymru. Mae'r ddogfen wedi bod yn destun ymgynghoriad ac mae disgwyl iddi gael ei thrafod ym mis Ebrill 2014 er mwyn ei hardystio. Mae adolygiad cyntaf y DTRh drafft yn nodi'r angen i ddyrannu tir ar gyfer tywod a graean yn Sir y Fflint ac ar gyfer creigiau mâl ar y cyd â Wrecsam.

Nid yw'r angen am fathau eraill o fwynau, gan gynnwys mwynau ynni, wedi'i fesur, er bod yr angen i gynnal cyflenwad parhaus yn cael ei nodi mewn polisïau cenedlaethol. Mae polisïau ynni cenedlaethol yn nodi angen parhaus am danwydd ffosil gan gynnwys glo a nwy.

Mae polisïau cenedlaethol yn amlygu'r angen i wneud defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys mwynau, yn ogystal â deunyddiau amgen neu ddeunyddiau a ailgylchwyd.

Mae cysylltiadau rhwng y testun mwynau a thestunau eraill megis gwastraff a chyflogaeth. Er bo'r papur hwn yn ystyried datblygiad mwynau, caiff unrhyw oblygiadau defnydd tir eu hystyried ochr yn ochr â datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol.

## Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

- Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001)
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (Mawrth 2004)
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (Ionawr 2009)
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 6 Chwefror 2014) (Llywod. Cymru)
- Datganiad Rhanbarthol Drafft ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru Adolygiad 1af (2014)
- Map Diogelu Agregau Cymru (2012) adroddiad a mapiau cysylltiedig
- Papur Gwyn Ynni 2007: Meeting the energy challenge (2007) Adran Masnach a Diwydiant
- Papur Gwyn Diwygio'r Farchnad Drydan (2011) Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd
- Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012) Llywodraeth Cymru

## Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

- Cydbwysu'r angen i ddiogelu mwynau sy'n bwysig i'r economi a'r angen am dwf.
- Sicrhau fod cyflenwad cynaliadwy o fwynau yn cael ei gadw dros oes y CDLI.
- Sicrhau yr eir i'r afael ag etifeddiaeth a adawir ar ôl gwaith cloddio a phroblemau yn ymwneud ag ansefydlogrwydd tir lle bo hynny'n angenrheidiol.
- Lleihau gwrthdaro rhwng datblygiadau sensitif a chwareli.
- Amddiffyn ardaloedd sy'n bwysig i'r amgylchedd naturiol a threftadaeth adeiledig rhag datblygiadau mwynau amhriodol.
- Sicrhau fod polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf yn cael eu cynnwys i ymdrin â safleoedd sydd heb eu dyrannu ac i helpu i ymateb i newidiadau annisgwyl.
- Sicrhau gwaith adfer o safon uchel a nodi defnyddiau priodol i safleoedd wedyn.

- Nodi safleoedd anweithredol a chynnwys strategaeth addas i esbonio cynigion ar gyfer y tir yn y dyfodol.
- Annog defnydd cynaliadwy o fwynau a defnyddio deunyddiau a ailgylchwyd.
- Cydnabod y posibilrwydd y bydd angen cydleoli gweithrediadau, megis safleoedd cynhyrchu concrid, safleoedd gorchuddion asfalt a gweithrediadau prosesu mwynau eraill ar safle neu oddi ar safle sy'n cynyddu gwerth y nwyddau mwynol.

## **Polisiâu / Cynigion Defnydd Tir Posibl**

Roedd y CDU yn cynnwys 10 o bolisiâu a chynigion yn y bennod mwynau. Mae rhai o'r polisiâu hyn yn cynnwys meini prawf sydd naill ai'n cael eu cynnwys mewn polisiâu neu ganllawiau cenedlaethol neu'n sy'n berthnasol i ystod o wahanol ddefnyddiau tir, nid yn unig mwynau yn benodol. Gellid eu cyfuno â pholisiâu eraill mewn rhannau eraill o'r cynllun datblygu.

Yn dilyn asesiad o bolisiâu'r CDU cynigir fod y prif bolisiâu a chynigion yn ymwneud yn fras â:

- Diogelu mwynau sy'n bwysig i'r economi.
- Dyrannu safleoedd unigol a/neu ardaloedd dewisedig ar gyfer agregau, yn unol â gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol.
- Dyrannu clustogfeydd addas o amgylch chwareli presennol.
- Nodi'r ardaloedd hynny lle na fydd datblygiadau mwynau yn dderbyniol.
- Nodi strategaeth i esbonio cynigion ar gyfer dyfodol safleoedd anweithredol sydd â chaniatâd cynllunio ond sy'n anhebygol o ddod yn ailweithredol yn y dyfodol agos.
- Nodi safonau adfer derbyniol a defnyddiau tir ar gyfer y dyfodol.
- Dyrannu neu gynnwys polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf i ddatblygu safleoedd ailgylchu adeiladu a dymchwel.